



Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

Union Foundation (Union School of Theology)

Mai 2022

Y canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau QAA am yr Union Foundation

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yn yr Union Foundation:

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.**

Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **meysydd canlynol sydd angen eu datblygu** yn yr Union School of Theology sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy ac/neu yn gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i'r Union School of Theology:

- 1 gwblhau a gweithredu'r arolwg cyn-fyfyrwyr newydd i wella'r wybodaeth er mwyn deall canlyniadau academiaidd a phroffesiynol y myfyrwyr yn well
- 2 cryfhau'r broses ymsefydlu i gynrychiolwyr y myfyrwyr ymhellach, ynghyd â'r cyfathrebu a wneir â nhw, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rolau'n effeithiol.

Gwelliannau penodol

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw **welliannau penodol** sy'n ymwneud â materion sy'n peri risgiau eisoes, neu a allai beri risgiau, i'r ansawdd a/neu'r safonau yn yr Union School of Theology.

Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 24 a 25 Mai 2022 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Dr John Deane
- Mrs Alison Jones
- Mr Matthew Kitching (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Ynghylch yr Union Foundation

Mae'r Union School of Theology (y cyfeirir ati fel 'yr Ysgol' o hyn ymlaen) yn gwahodd pawb sy'n ceisio datblygiad academiaidd ac ysbrydol – yn eu dealltwriaeth o'r Ysgrythur Gristnogol, yn eu sgiliau gweinigogaeth, ac yn eu ffurfiant personol. Mae gan yr Ysgol gampws preswyl yn Ne Cymru 14 o Gymunedau Dysgu GDip (10 cymuned yn y DU, dwy yn yr Unol Daleithiau, dwy yn Ewrop), a phedair Cymuned Dysgu MTh (un gymuned yn y DU, un arall yng Nghanada, dwy yn Ewrop).

Mae'r Ysgol yn cynnig rhaglen Diploma i Raddedigion (GDip) mewn Diwinyddiaeth, rhaglen BA mewn Diwinyddiaeth a rhaglen MTh yn yr Ysgrythur a Diwinyddiaeth, ac mae pob un ohonynt yn gweithredu ar y cyd â'r Brifysgol Agored. Mae'r Ysgol hefyd yn cynnig rhaglen PhD mewn partneriaeth â Phrifysgol Rydd Amsterdam (ei henw Iseldireg yw 'Vrije Universiteit Amsterdam').

Mae gan yr Ysgol gyfanswm o 179 o fyfyrwyr ar draws yr holl ddyfarniadau a gynigir ar y cyd â'r Brifysgol Agored, rhaglenni GDip a BA mewn Diwinyddiaeth, ac mae'r mwyafrif (101) ar y rhaglen MTh yn yr Ysgrythur a Diwinyddiaeth. Mae chwe myfyrwr wedi eu cofrestru ar y rhaglen PhD. Ar sail gyfwerth ag amser llawn, mae gan yr Ysgol 102 o fyfyrwyr. Mae gan yr Ysgol naw aelod llawn amser a dau aelod rhan amser o staff academiaidd, 11 aelod llawn amser o staff gweinyddol a staff gwasanaethau proffesiynol, ac 14 aelod o staff ategol.

Yn ddiweddar, mae'r Ysgol wedi cwblhau'r broses o 'addysgu allan' ei rhaglen MTh mewn Diwinyddiaeth yng Nghyd-destun yr Ysgrythur a gynigir ar y cyd â Phrifysgol Caer am ei bod wedi ynnu allan o'i holl bartneriaethau â darparwyr addysg uwch preifat.

Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)

1 Gan y corff dyfarnu, sef y Brifysgol Agored, y mae'r cyfrifoldeb pennaf am sicrhau bod y safonau'n alinio â lefel briodol y FHEQ, ac am roi ystyriaeth i feincnodau pwnc a fframweithiau perthnasol eraill. Mae'r Ysgol yn deall y cyfrifoldebau sydd ganddi am osod a/neu gynnal safonau ar draws ei holl safleoedd darparu, ac mae'n cyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol drwy ei strwythurau llywodraethu academaidd. Mae'n gweithio gyda'i chorff dyfarnu i gymeradwyo, monitro ac adolygu ei rhaglenni addysg uwch, ac mae ei Bwrdd Academaidd yn cynnwys cynrychiolwyr o'i chorff dyfarnu. Canfu'r tîm adolygu bod cydymffurfriad yr Ysgol â pholisïau a rheoliadau ei chorff dyfarnu'n sicrhau bod ei rhaglenni'n alinio'n gyson â'r FHEQ a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

2 Ni wnaed unrhyw gyfeiriad pendant at *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) mewn perthynas â dogfennaeth y rhaglenni i ddangos sut yr aliniwyd ag o a sut y bu'r Ysgol yn hwyluso casglu a throsglwyddo credydau yng nghyd-destun y Fframwaith. Fodd bynnag, dywedodd yr Ysgol bod y rhaglenni wedi eu strwythuro yn unol â'r FfCChC a gwnaed y staff yn ymwybodol o ddiweddariadau i sicrhau bod y rhaglenni'n parhau'n gyson ag o.

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

3 Trwy ei strwythurau llywodraethu academaidd, mae'r Ysgol yn cydymffurfio â rheoliadau a threfnau sicrhau ansawdd y Brifysgol Agored ar gyfer dyfarniadau a ddilysir gan y brifysgol. Creffir ar bob cynnig am raglen newydd neu ddiwygiedig gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd cyn ei gyflwyno i'r corff dyfarnu i gael ei gymeradwyo'n derfynol. Adolygir yr holl bolisïau sefydliadol bob tair blynedd i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'w pwrpas, a gwneir adolygiad rheolaidd o'i dogfen sy'n mapio ei pholisïau a'i gweithdrefnau yn erbyn y Cod Ansawdd.

4 Mae polisïau'r Ysgol ar gyfer asesu a marcio, a chydabod dysgu blaenorol, yn disgrifio trefniadau manwl sy'n profi a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni'r safonau academaidd yn unol â gofynion ei chorff dyfarnu. Mae Byrddau Cynnydd Myfyrwyr yr Ysgol yn adolygu perfformiad academaidd ei myfyrwyr ac yn goruchwyllo'r prosesau o fonitro eu presenoldeb yn effeithiol, gan dynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n achosi pryder. Mae'r Bwrdd Arholwyr yn ymateb i'r adborth a ddarperir mewn adroddiadau arholwyr allanol ac yn rhoi ystyriaeth briodol i farciau a pherfformiad y myfyrwyr wrth iddynt symud drwy eu rhaglenni, cyn iddo wneud argymhellion yn ymwneud â rhoi dyfarniadau i gorff dyfarnu perthnasol yr Ysgol. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn ymwybodol o'r gofynion asesu, y canlyniadau dysgu a'r meini prawf marcio, a chafwyd sylwadau cadarnhaol ganddynt am y gefnogaeth a roddir iddynt i'w galluogi i gwblhau eu hasesiadau'n llwyddiannus. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod cydymffurfriad yr Ysgol â rheoliadau a gofynion ei chorff dyfarnu a'r mapio yn erbyn y Cod Ansawdd yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei chymwysterau'n parhau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfarnir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.

5 Cymeradwyir ac adolygir rhaglenni'r Ysgol drwy brosesau sicrhau ansawdd ei chorff dyfarnu sy'n sicrhau eu bod yn cael eu gosod ar lefel briodol y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ). Mae'r wybodaeth am y rhaglenni'n disgrifio'r canlyniadau dysgu perthnasol sydd i gael eu cyflawni ar bob lefel, ac maent oll wedi eu mapio yn erbyn y meini prawf asesu. Mae'r meini prawf marcio'n cyfateb â'r lefelau a osodwyd yn y FHEQ ac yn cydymffurfio â rheoliadau'r corff dyfarnu.

6 Mae arholwyr allanol yr Ysgol yn nodi yn eu hadroddiadau blynyddol a yw'r safonau a osodwyd yn briodol i'r dyfarniad, neu elfen o'r dyfarniad, drwy gyfeirio at unrhyw feincnodau pwnc, fframweithiau cymwysterau a manylebau rhaglenni y cytunwyd arnynt, neu wybodaeth berthnasol arall.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

7 Mae Cymunedau Dysgu'r Ysgol sy'n darparu rhaglenni drwy ddulliau dysgu hyblyg a dosranedig yn cael eu cymeradwyo gan FwrddAcademaidd yr Ysgol sy'n cynnwys cynrychiolwyr ei chorff dyfarnu. Gan yr Ysgol y mae'r cyfrifoldeb am yr holl addysgu ac asesu; penodir a chefnogir tiwtor cyswllt yr Ysgol gan fentoriaid arweiniol a ddewisir o fewn y Cymunedau Dysgu i hwyluso'r dysgu. Mae adolygwr academaidd y Brifysgol Agored yn adolygu rhestr wirio fanwl ar gyfer y Cymunedau Dysgu, sy'n cynnwys eu cyfleusterau a'u cyfleoedd dysgu. Mae Protocol Adolygu Cymunedau Dysgu'n nodi'r gofynion ynghylch tiwtoriaid cyswllt, a'r gofynion monitro sy'n cynnwys cynhyrchu adroddiad blynyddol. Ers 2020, mae'r Ysgol wedi bod yn arsyllu ei Chymunedau Dysgu ar-lein bob blwyddyn i wirio'r safonau.

8 Gwneir lleoliadau gwaith mewn partneriaeth â darparwyr lleoliadau gwaith lleol, y mae llawer ohonynt yn eglwysi lleol, sy'n derbyn asesiad risg. Mae'r Deon Bugeiliol yn goruchwyllo'r prosesau o oruchwyllo ac asesu lleoliadau gwaith, ac mae'r goruchwylwyr i gyd yn cael eu hymsefydlu a'u hyfforddi. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod wedi derbyn cefnogaeth dda yn ystod eu lleoliadau gwaith, a oedd wedi eu strwythuro i sicrhau eu bod yn berthnasol i swyddi arfaethedig y myfyrwyr ac yn adlewyrchu eu dyheadau gyrfaoel. Mewn cyfweiliad â'u goruchwylwyr a'u tiwtoriaid lleoliad, rhoddwyd cyfle i'r myfyrwyr roi adborth i'r Ysgol am y profiadau a gawsent yn ystod eu lleoliadau gwaith. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan yr Ysgol, drwy weithio'n agos gyda'i chorff dyfarnu, drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei dyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

9 I osod a chynnal safonau, mae'r Ysgol yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol yn effeithiol ac yn defnyddio cyngor gan arbenigwyr annibynnol. Mae'n ymwneud yn frwd ag arholwyr allanol, cyflogwyr, cynrychiolwyr o'r diwydiant a'i chorff dyfarnu, ac mae'n ymateb i adborth yn rhan o'i phrosesau sicrhau ansawdd. Ar hyn o bryd, mae dau arholwr allanol sy'n dod o sefydliad addysg uwch ac un arholwr o goleg diwinyddol blaenllaw. Mae'r rhain yn cymryd rhan yn y prosesau asesu a dosbarthu ac yn darparu adborth i gadarnhau bod ansawdd a thegwch i'w cael yn y broses asesu. Mae'r Bwrdd Arholwyr yn trafod ac yn cofnodi'r sylwadau a roddir mewn adroddiadau blynyddol ac mae'r dyfarniadau'n cael eu dosbarthu ar sail rheoliadau'r Brifysgol Agored. Mae

adolygwr academiaidd y Brifysgol Agored yn darllen adroddiadau'r arholwyr allanol, yn cwrdd â myfyrwyr yr Ysgol ac yn crynhoi'r wybodaeth mewn adroddiad trosolwg. Mae aelodaeth y Bwrdd Academiaidd yn cynnwys dau gynrychiolydd allanol – un cynrychiolydd o blith y gymuned eglwysig ac un arall sy'n dod o sefydliad addysg uwch. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad fod yr Ysgol yn gweithredu prosesau asesu a dosbarthu sy'n sicrhau bod cyflawniad y myfyrwyr yn cael ei fesur mewn ffordd ddibynadwy, deg ac eglur.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

10 Trwy ei strwythurau llywodraethu academiaidd, mae'r Ysgol yn adolygu ei harferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant. Adolygir yr holl bolisiau sefydliadol bob tair blynedd i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'w pwrpas, a gwneir adolygiad rheolaidd drwy strwythurau llywodraethu academiaidd yr Ysgol o'i dogfen sy'n mapio ei pholisïau a'i gweithdrefnau yn erbyn y Cod Ansawdd. Yna, cyhoeddir y polisïau a'r gweithdrefnau a ddiwygiwyd yn y Cwmwl ac ar y wefan. Er enghraifft, ym mis Hydref 2021 cymeradwyodd y Bwrdd Academiaidd Bolisi Derbyn diwygiedig i ddiweddarau'r gofynion fisa sy'n berthnasol i ymgeiswyr o'r tu allan i'r UE. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu nad oedd y fersiwn gyhoeddedig wedi ei diweddarau i adlewyrchu'r addasiad hwn ar adeg yr ymweliad adolygu. Yn ddiweddar, roedd yr Ysgol hefyd wedi adolygu ei phwyllgorau rhaglen i gyflwyno Cydbwyllgor Rhaglenni, gan ddod â threfniadau monitro pob rhaglen a phob partner at ei gilydd. Un o fuddion hynny oedd gostyngiad yn y gorgyffwrdd a datblygu mwy o gysondeb rhwng ei holl feysydd astudio.

Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

11 Mae'r corff dyfamu (sef y Brifysgol Agored) yn gyfrifol am sicrhau aliniad â'r FHEQ. Mae'r Ysgol yn alinio ei rhaglenni â'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol ac yn cydymffurfio â rheoliadau a threfnau sicrhau ansawdd y Brifysgol Agored. Adolygir yr holl bolisiau bob tair blynedd, a gwneir adolygiad rheolaidd o'i dogfen sy'n mapio ei pholisïau a'i gweithdrefnau yn erbyn y Cod Ansawdd. Mae cyflawniad y safonau academiaidd yn gyfatebol â gofynion y Brifysgol Agored. Adolygir perfformiad academiaidd y myfyrwyr yng nghyfarfodydd y Byrddau Cynnydd Myfyrwyr. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn derbyn sylw yng nghyfarfodydd y Bwrdd Arholwyr. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o'r gofynion asesu a'r canlyniadau dysgu, a chafwyd sylwadau cadarnhaol ganddynt am y gefnogaeth a roddir iddynt. Mae'r myfyrwyr yn cael lleoliadau gwaith effeithiol ar safleoedd darparwyr lleol.

Y feirniadaeth

12 Archwiliodd y tîm adolygu ystod eang o ddogfennau, yn cynnwys manylebau rhaglenni a chofnodion o brosesau cymeradwyo dilysiad, a chanfu'r tîm dystiolaeth i ddangos bod yr Ysgol yn bodloni'r Disgwyliadau o ran safonau sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd. Cafodd hyn ei gytuno gyda'r arholwyr allanol a thrafodwyd y materion hyn mewn cyfarfodydd gyda'r staff lle'r oedd cynrychiolydd y corff dyfarnu'n bresennol.

13 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

14 Mae gan yr Ysgol Bolisi Derbyn a dywedodd wrth y tîm bod hwn wedi cael ei adolygu ym mis Mai 2021, ac eto ym mis Hydref 2021. Mae'r Bwrdd Academaidd yn goruchwyllo'r polisi ac mae ar gael ar wefan yr Ysgol. Mae'r polisi'n gynhwysfawr ac yn ymwneud â'r cyfrifoldebau, y meini prawf dethol, y broses ymgeisio i fyfyrwyr hŷn a myfyrwyr rhyngwladol, a'r broses apelio, ymhlith pethau eraill. Canfu'r tîm nad oedd y fersiwn o'r Polisi Derbyn a ddiwygiwyd ym mis Hydref 2021 ar gael yn gyhoeddus ar adeg yr adolygiad. Dywedwyd wrth y tîm mai'r rheswm am hyn oedd salwch staff, a chywirwyd hynny yn ystod yr ymweliad adolygu. Canfu'r tîm nad oes unrhyw ddull systematig o fonitro cywirdeb parhaus yr wybodaeth gyhoeddedig ar hyn o bryd. Serch hynny, dywedodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw eu bod wedi derbyn gwybodaeth gynhwysfawr ar y cam ymgeisio a bod y staff wedi ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt yn gyflym iawn. Mae gan yr Ysgol hefyd Bolisi Cydnabod Dysgu Blaenorol a Pholisi a Threfn Apelio a Chwyno am Benderfyniadau Derbyn.

15 Seiliwyd dull yr Ysgol o recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr ar ei hymrwymiad i ddarparu "addysg, hyfforddiant ac adnoddau Beiblaidd sy'n hygyrch ac yn drwyadl i eglwysi ledled y byd". Mae'r meini prawf dethol yn cynnwys perfformiad academiaidd blaenorol yr ymgeiswyr, eu gallu i wneud astudiaethau diwinyddol academiaidd, eu gallu yn y Saesneg, a'u dealltwriaeth a'u derbyniad o nodau ac ethos yr Ysgol. Hefyd, mae gan raglenni unigol feini prawf penodol - er enghraifft, mae gofyn i'r rhai sy'n ceisio lle ar y rhaglen MTh mewn Diwinyddiaeth gael o leiaf gradd anrhydedd ail ddsbarth is mewn diwinyddiaeth neu ddisgyblaeth gysylltiedig.

16 Mae darpar fyfyrwyr yn cyflwyno eu ceisiadau ar-lein, yn uniongyrchol i'r Ysgol. Yr Adran Dderbyn sy'n prosesu'r rhain i ddechrau ac yna cânt eu gwerthuso gan arweinydd y rhaglen berthnasol sy'n gwahodd darpar fyfyrwyr i gyfweiliad; mae gofyniad i gwblhau rhestr wirio ar bob un o'r ddau gam. Cedwir taenlen drosolwg o'r ymholiadau a'r ceisiadau a dderbynnir. Mae'r daenlen yn cynnwys teitl y rhaglen y ceisir lle arni, ac mae'n nodi a oes angen unrhyw eirdaon (gan gynnwys geirdaon gan eglwysi), dyddiadau a chanlyniadau cyfweiliadau, ac a ydynt wedi derbyn post ymgyrch bostio berthnasol. Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm fod y meini prawf mynediad yn eglur, a chanfu'r tîm fod y broses dderbyn yn hygyrch ac yn deg.

17 Ym mis Medi 2021, bu Pwyllgor Rhaglen y rhaglen MTh yn trafod trefniadau derbyn y rhaglen ar gyfer ymgeiswyr sydd â chymwysterau ansafonol ac roedd wrthi'n llunio arholiad. Yn ystod y broses adolygu, rhoddodd y sefydliad wybod i'r tîm ei fod wedi penderfynu, o ganlyniad i newid yn arweinydd y sefydliad, nad oedd yr arholiad hwn yn angenrheidiol. Ystyrir pob cais yn unigol er mwyn sicrhau tegwch a chynhwysiant, ac mae'n ystyried natur llawer o'r ymgeiswyr.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

18 Mae'r Ysgol yn dilyn gweithdrefnau'r Brifysgol Agored ac yn mynd drwy broses ail-ddilysu bob pum mlynedd sy'n adolygu strwythurau'r sefydliad a'i raglenni, yn cynnwys ei drefnau darparu. O fewn ffiniau ei chytundeb dilysu, mae gan yr Ysgol lawer iawn o ryddid i roi pob rhaglen yn ei chyd-destun a sicrhau ei bod yn cyfateb ag ethos, anghenion ac ymagwedd y sefydliad. Yn rhan o'r ymagwedd hon, mae'r Ysgol yn datblygu manylebau modiwlau newydd ac yn ymgysylltu'n eang drwy ddeialog â staff y Brifysgol Agored drwy gydol y broses. Mae'r arholwyr allanol yn cyfranogi'n gryf yn y broses o ystyried unrhyw newidiadau. Roedd y myfyrwyr yn canmol safon y cyrsiau a ddarperir sydd, yn eu barn hwy, yn ateb eu hanghenion dysgu.

19 Mae ystod o brosesau ar waith i helpu i fonitro a chynnal safonau uchel y cyrsiau. Yn rhan o'r prosesau hyn, mae gofyn i bob aelod o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff ategol, gael eu harsylwi gan eu cymheiriaid. Rhoddir adborth ar arsylwadau a chedwir cofnodion. Disgrifiodd y staff y broses o arsylwi gan gymheiriaid fel proses gefnogol a buddiol, a rhoesant esiamplau o sefyllfaoedd lle'r oedd wedi arwain at wella'r arferion - er enghraifft, rhesymoli'r maint o ddeunyddiau a ddarperir ar gyfer darlithoedd ar-lein, ac atgyfnerthu'r angen i ddarparu'r wybodaeth am y cyrsiau mewn fformatau hygrych.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

20 Mae'r Ysgol yn cyflogi staff sy'n arbenigwyr yn eu disgyblaeth, yn cyfranogi yn y gymuned academaidd ehangach ac yn gweithio fel goruchwylwyr ymchwil, cymrodorion ymchwil a darlithwyr gwadd. Disgwylir i bob aelod o'r staff addysgu ategol ennill statws Cymrawd Advance HE (sef yr Academi Addysg Uwch gynt) o fewn dwy flynedd ar ôl cychwyn mewn swydd yn y sef ydliad. Mae gan yr Ysgol Bolisi Datblygiad Staff sy'n disgrifio egwyddorion allweddol a'r broses o wneud cais am ddatblygiad staff, ac sy'n cynnwys gwybodaeth i esbonio sut mae hyn yn cysylltu â'r broses flynyddol o adolygu staff. Hefyd, mae'r Ysgol yn paratoi Adroddiad Datblygiad Staff blynyddol sy'n nodi'r holl weithgareddau'n fanwl a wnaed gan ei staff yn ystod y flwyddyn flaenorol. I helpu i gasglu'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, mae gofyn i bob aelod o'r staff, ac eithrio'r staff ategol, gwblhau ffurflen werthuso sy'n nodi cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus posibl. Gwelodd y tîm esiamplau o ffurflenni gwerthuso cyflawn sydd weithiau'n cael eu cwblhau fel crynodeb. Fel arfer, aelodau unigol o'r staff sy'n gyrru'r broses datblygiad staff yn hytrach na chael cysylltiad pendant rhwng strategaeth sefydliadol ac unrhyw hyfforddiant a datblygiad a wneir gan y staff ategol. Mae tystiolaeth sy'n dangos bod y staff yn cyhoeddi papurau, yn gwneud gwaith ym maes cenhadaeth ddiwinyddol, ac yn siarad mewn cynadleddau academaidd. Hefyd, dangoswyd esiamplau i'r tîm o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gafodd ei gefnogi gan y sefydliad - er enghraifft, roedd arian ar gael i alluogi i aelodau o'r staff fynd i symposiwm llywodraethol am iechyd a lles meddwl.

21 Ers yr adolygiad diwethaf, mae'r sefydliad wedi penodi Tiwtor i Ferched. Nod y penodiad neilltuedig hwn yw rhoi cymorth academaidd a bugeiliol ar sail un-i-un, a hyrwyddo cymorth cilyddol i'r myfyrwyr drwy grwpiau bugeiliol bychain. Ar hyn o bryd, mae 75% o'r myfyrwyr benywaidd yn y sefydliad wedi derbyn cefnogaeth gan y Tiwtor i Ferched. Nododd y myfyrwyr benywaidd lefelau uchel o foddhad gyda'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn gan y Tiwtor i Ferched, gan gynnwys y ffaith bod yr arweiniad a roddir iddynt wedi helpu i gadarnhau bod y rhaglen, yn ogystal â'u galwedigaeth fel gweinidogion, yn briodol i'r myfyrwyr benywaidd.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

22 Mae gan lyfrgell yr Ysgol oddeutu 30,000 o lyfrau diwinyddol a llyfrau mewn pynciau cysylltiedig, yn ogystal â chasgliadau arbenigol a deunyddiau Cymraeg. Mae'r llyfrgell yn meddu ar gatalog ar-lein o fwy na 150 o deitlau cyfnodolion ac amrywiaeth o e-lyfrau a chronfeydd data. Hefyd, mae modd i'r myfyrwyr ddefnyddio gofodau astudio ar y campws. Siaradodd y myfyrwyr yn gadarnhaol am ddatblygiadau diweddar sy'n gysylltiedig â'r adnoddau dysgu a'r gefnogaeth o safon uchel a ddarperir gan lyfrgellydd newydd yr Ysgol, a oedd yn helpu i dynnu sylw at adnoddau nad oedd y myfyrwyr yn gwybod eu bod ar gael. Ond, dywedodd y myfyrwyr hefyd bod angen mwy o gynnydd er mwyn darparu amrywiaeth ehangach o adnoddau electronig.

23 Ers yr adolygiad diwethaf, mae'r Ysgol wedi ychwanegu trydedd ystafell 'Zoom Room' at ei chyfleusterau ar gampws Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ystafell hon yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn gwersi ar-lein mewn cyfleuster pwrpasol a pharhau i ryngweithio â myfyrwyr ar y campws. Roedd y myfyrwyr yn gadarnhaol am y buddion a ddaeth law yn llaw â'r adnodd hwn,

oedd yn caniatáu iddynt ddefnyddio amgylchedd astudio ar-lein ffafriol, gan hefyd alluogi rhyngweithio wyneb yn wyneb pwysig gyda'u cymheiriaid. Ar ben hynny, mae'r Ysgol wedi cyflwyno cyfleuster mewngofnodi sengl i systemau ar-lein sy'n cynnwys y system e-bost, catalog y llyfrgell a'r rhith-amgylchedd dysgu.

24 Mynegodd y myfyrwyr rai pryderon ynglŷn â'r broses ymsefydlu. Roedd y rhain yn cynnwys bylchau yn y wybodaeth ynglŷn â phryd y byddai modiwlau penodol yn cael eu haddysgu ac ynglŷn ag effeithiolrwydd dysgu ar-lein o'i gymharu ag wyneb yn wyneb. Teimlai'r myfyrwyr oedd wedi bod i'r gynhadledd groeso'n bersonol, eu bod wedi derbyn mwy o wybodaeth na'u cymheiriaid a oedd wedi cymryd rhan yn ei fersiwn ar-lein, a chytunodd eu cymheiriaid â hynny. Mae'r sefydliad wedi cymryd camau gweithredu adferol i wella'r broses ymsefydlu drwy ddatblygu fideos i fyfyrwyr.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

25 Mae Llywydd y Myfyrwyr yn gyfrifol am gychwyn yr Arolwg Boddhad Myfyrwyr yn yr ail semester. Mae'r arolwg yn casglu adborth yn ymwneud â'r wyth maes canlynol o waith: addysgu, cyfleoedd dysgu, asesu a rhoi adborth, cymorth academiaidd, trefnu a rheoli, adnoddau dysgu, y gymuned ddysgu, a llais y myfyrwyr. Ystyrir adborth dienw o'r arolwg gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academiaidd, ac mae camau gweithredu'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Ansawdd.

26 Yn 2021-22, cyflwynodd yr Ysgol system ar-lein o roi adborth am fodiwlau i amnewid eu ffurflen bapur flaenorol sydd wedi gwella'r cyfraddau ymateb. Mae'r Ysgol wedi canfod nifer o broblemau thematig yn yr adborth am y modiwlau gan gynnwys llwythau darllen trwm, gwybodaeth ragdybiedig, agweddau bugeiliol o'r Cwrs mewn Pregethu a Bugeiliaeth, a phryderon am ganlyniadau dysgu'r Cwrs Teulu ac Ieuencid Plant. Cydnabu'r staff y problemau hyn a rhoddwyd esiamplau i'r tîm o'r ffordd yr oedden nhw'n rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith - er enghraifft, drwy adolygu a diwygio canlyniadau dysgu.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

27 Mae gan yr Ysgol Bolisi Cwyno manwl a chynhwysfawr sydd ar gael ar y wefan a'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r polisi'n nodi amseriadau clir, yn trafod materion yn ymwneud â diogelu data a chyfrinachedd ac yn disgrifio trefniadau i gefnogi'r rheiny sydd eisiau cyflwyno cŵyn. Hefyd, mae'r polisi'n gwahaniaethu rhwng cwynion ffurfiol ac anffurfiol ac yn rhoi cyfle i achwynwyr wneud cais am adolygiad ffurfiol. Mae'r seiliau ar gyfer adolygiad ffurfiol yn cynnwys triniaeth annheg a bodolaeth unrhyw ddeunyddiau nad oes modd eu datgelu ar adeg cyflwyno'r gŵyn. Mae'r polisi'n rhoi gwybodaeth i'r myfyrwyr am gyfeirio eu hachos i'r corff dyfarnu a/neu Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch. Ym mlwyddyn academiaidd 2020-21, cyflwynwyd cwyn i'r Ysgol yn ymwneud â'r rhaglen MTh. Yn fwy cyffredinol, cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn gwybod ble a sut i ganfod gwybodaeth am y broses gwyno.

28 Mae gan yr Ysgol Weithdrefn a Pholisi Apeliadau Academiaidd sy'n disgrifio'r broses o apelio yn erbyn marciau modiwlau neu ddyfarniadau terfynol. Mae'r polisi'n gwahaniaethu'n eglur rhwng cwynion ac apeliadau, yn nodi amseriadau ar gyfer ystyried apeliadau academiaidd ac yn esbonio'n eglur beth yw seiliau annerbyniol ar gyfer apelio. Yn ddiweddar, cyflwynwyd apêl academiaidd i'r Ysgol yn ymwneud â rhaglen GDip y flwyddyn academiaidd gyfredol, ond gwrthodwyd yr apêl. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn gwybod sut i ganfod gwybodaeth ynglŷn â sut i gyflwyno apêl academiaidd, os bydd angen.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

29 Mae gan yr Ysgol Bwyllgor Graddau Ymchwil sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys gwerthuso'r cynnydd a geir yn feirniadol - darpariaeth yr addysgu a derbyniad y myfyrwr - yn ogystal â thynnu sylw at faterion rheoli ansawdd ac adrodd amdanynt, a gwneud awgrymiadau sydd i gael eu cyfeirio at y Bwrdd Academaidd. Mae'r Ysgol yn darparu rhaglen PhD ar y cyd â Phrifysgol Rydd Amsterdam, ond nid yw'r rhaglen hon yng nghwmpas yr adolygiad hwn.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

30 Ni addysgir unrhyw ddarpariaeth gan bartneriaid. Mae'r myfyrwr ar y rhaglen BA yn cael lleoliadau gwaith. Gan y darlithydd y mae'r cyfrifoldeb am lleoliadau gwaith ac mae ef/hi'n esbonio eu natur ac yn ymgysylltu â darparwr pob lleoliad gwaith sydd â'r oruchwyliaeth ac sy'n cwblhau adroddiad yn rhan o'r asesiad. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau gwaith yn digwydd mewn eglwysi lleol a gallant arwain at swydd gyflogedig. Teimlad y myfyrwr oedd eu bod wedi eu paratoi'n dda ar gyfer lleoliadau gwaith.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

31 Mae'r Ysgol yn denu cyfuniad o fyfyrwr sy'n ceisio mynd i mewn i yrfaedd galwedigaethol sy'n gysylltiedig â'r weinidogaeth, yn ogystal â myfyrwr sy'n astudio ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd a'u bywydau. Dywedodd y myfyrwr wrth y tîm fod yr amrediad o addysgu a chefnogi sydd ar gael iddynt yn briodol i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau academaidd a phroffesiynol yr hoffent eu cael. Darparodd y myfyrwr amrediad eang o esiamplau lle mae sgiliau meddal wedi eu hymwreiddio yn y cwricwlwm - er enghraifft, modiwlau sgiliau gweinidogaeth a gweinidogaeth fugeiliol. Hefyd, cafwyd sylwadau cadarnhaol ganddynt am y cysylltiad agos rhwng addysgu, hunan-ddysgu ac asesu - er enghraifft, y defnydd a wneir o bregethau a asesir ac asesiad adfyriol mewn astudiaethau bugeiliol a phregethu. Hefyd, canmolodd y myfyrwr a'r staff y defnydd a wneir o Gymunedau Dysgu sy'n caniatáu llawer o amser i'r myfyrwr drafod gyda'u cymheiriaid a dysgu ganddynt.

32 Mae'r Ysgol yn gwneud rhywfaint o ddefnydd o ddata monitro am ganlyniadau academaidd a phroffesiynol y myfyrwr, er enghraifft drwy arolwg o'i chyn-fyfyrwr. Felly, mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: cwblhau a gweithredu'r arolwg cyn-fyfyrwr newydd i wella'r wybodaeth er mwyn deall canlyniadau academaidd a phroffesiynol y myfyrwr yn well.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

33 Mae Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yr Ysgol yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso ansawdd eu prosesau'n feirniadol, ac am gynllunio gwelliannau i'r prosesau, os bydd angen. Felly, mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaid â fframweithiau rheoliadol ac am ffurfio'r ymatebion i asiantaethau allanol ac i'r corff dyfarnu. Yn 2022, cyflwynodd yr Ysgol Gydbwyllgor Rhaglenni, gan ddod â phwyllgorau pob rhaglen oedd ar wahân gynt at ei gilydd, ac mae hyn wedi gwella gallu'r Ysgol i ganfod problemau thematig cyffredin a lleadaenu arferion da. Dywedodd y sefydliad wrth y tîm ei fod yn ystyried mai prif fantais y Cydbwyllgor Rhaglenni newydd yw'r effeithlonrwydd y mae wedi ei ddarparu.

34 O dan ei chytundeb dilysu gyda'r Brifysgol Agored, mae gofyn i'r Ysgol benodi tiwtor cyswllt sy'n cysylltu â mentor arweiniol y Brifysgol Agored i sicrhau bod pob un o'r protocolau y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn. Hefyd, gwneir Adolygiad Cymuned Ddysgu'n flynyddol i fonitro gweithrediad y rhaglen. Canfu'r tîm fod cylch sicrhau ansawdd clir ar waith a bod y staff ledled y sefydliad yn ei ddeall yn dda ond mae'n ymddangos nad yw rhai camau gweithredu wedi eu cwblhau a'u llofnodi mewn ffordd glir a phrydlon.

Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.

35 Mae'r Ysgol yn cynnwys cynrychiolwyr allanol ar ei phrif bwyllgorau, megis ei Bwrdd Academaidd a'i Phwyllgor Sicrhau Ansawdd. Hefyd, mae gan y sefydliad arholwyr allanol ar gyfer ei rhaglenni. Mae'r adroddiadau arholwyr allanol a welwyd gan y tîm yn cadarnhau bod y safonau'n briodol i'r dyfarniadau ac yn cyfateb â'r meincnodau allanol perthnasol. Mae'r adroddiadau hefyd yn cadarnhau bod gwaith y myfyrwyr o safon briodol, ac mae'r asesiadau'n dangos eu bod yn cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir. Pan fydd y sefydliad yn derbyn adroddiadau arholwyr allanol, mae timau'r rhaglenni'n eu hystyried ac yn ymateb iddynt ac mae'r Bwrdd Arholi'n adolygu'r ymatebion hyn. Maent hefyd yn atebol i graffu gan y Brifysgol Agored. Ar hyn o bryd, does dim cyfranogaeth gan y myfyrwyr yn y broses o ystyried adborth gan arholwyr allanol ac nid yw adroddiadau arholwyr yn cael eu rhannu'n arferol gyda'r myfyrwyr, ond maent ar gael yn y Cwmwl.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

36 Mae system ffurfiol o gynrychiolaeth myfyrwyr ar waith, ac etholir Llywydd y Myfyrwyr a nifer o gynrychiolwyr y myfyrwyr ar lefel y rhaglenni. Mae'r Llywydd yn cael ei ymsefydlu gan y Swyddog Cydymffurfiad ac Adrodd. Ond, ar hyn o bryd, nid yw'r Llywydd na chynrychiolwyr y myfyrwyr yn derbyn unrhyw hyfforddiant mewnol a/neu ddeunyddiau cymorth ychwanegol gan y Brifysgol Agored neu ei Chymdeithas Myfyrwyr. Mae'r Ysgol yn cydnabod bod angen cryfhau'r gefnogaeth i gynrychiolwyr etholedig y myfyrwyr. Mae data'r arolwg myfyrwyr diweddaraf yn dangos bod 70% o'r myfyrwyr yn cytuno bod digon o gyfleoedd priodol ar gael iddynt i roi adborth am eu cyrsiau, bod 60% yn cytuno bod y staff yn gwerthfawrogi barn a sylwadau'r myfyrwyr am y cyrsiau, a bod 72% o'r farn y cymerwyd camau effeithiol mewn ymateb i'w hadborth. Ond, dim ond 35% o'r ymatebwyr sy'n cytuno bod cynrychiolwyr y myfyrwyr yn cynrychioli buddiannau'r corff myfyrwyr yn effeithiol. Nododd y staff a'r myfyrwyr nifer o resymau am hyn, yn cynnwys cyfathrebu gwael a'r ffaith na hysbyswyd y cynrychiolwyr eu bod wedi cael eu dewis ar gyfer y rôl. Cadarnhaodd y tîm fod gwaith cydweithredol wedi cychwyn yn barod i wella'r agwedd hon o waith y sefydliad. Felly, mae'r tîm adolygu'n ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: cryfhau'r broses ymsefydlu i gynrychiolwyr y myfyrwyr ymhellach, ynghyd â'r cyfathrebu a wneir â nhw, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rolau'n effeithiol.

Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

37 Mae gan yr Ysgol brosesau derbyn sy'n eglur ac yn deg ac sy'n cynnwys cydnabod dysgu blaenorol ac ystyried ceisiadau gan fyfyrwyr sydd â chymwysterau ansafonol sy'n adlewyrchu natur ei myfyrwyr. Cynlluniwyd y rhaglenni'n unol â chanllawiau'r corff dyfarnu i gynnig astudiaethau Beiblaidd a diwinyddol trwyadl er mwyn paratoi'r myfyrwyr ar gyfer y weinidogaeth ledled y byd. Mae gan y staff academaidd gymwysterau da, ac maent yn gwneud gwaith ymchwil ac yn cyfranogi yn y gymuned academaidd ehangach, ac mae nifer ohonynt yn gweithio yn y weinidogaeth hefyd. Mae cysylltiad agos â staff cymorth er mwyn ateb anghenion bugeiliol ac academaidd y myfyrwyr. Cafodd y broses o fonitro ac adolygu profiad y myfyrwyr ei gwella'n ddiweddar a chadarnhawyd hynny gan adroddiadau'r corff dyfarnu a'r arholwyr allanol. Ystyrir sylwadau'r myfyrwyr a gweithredir arnynt, a barn gyffredinol y myfyrwyr oedd eu bod yn fodlon â'u profiad.

Y feirniadaeth

38 Archwiliodd y tîm adolygu'r holl dystiolaeth a ddarparwyd, a chyfarfu'r tîm ag aelodau uwch o'r staff, staff academiaidd a staff cymorth, a myfyrwyr cyfreddol. Mae rhaglenni'r Ysgol wedi eu halinio â rheoliadau'r Brifysgol Agored, ac mae polisïau yn eu lle i sicrhau safonau academiaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr. Byddai'r meysydd sydd angen eu datblygu'n gwella'r prosesau sydd ar waith yn barod.

39 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

40 Dilysir pob un o gyrsiau'r Union School of Theology gan y Brifysgol Agored - sef darparwr sydd wedi ei seilio yn Lloegr. Felly, cadarnhawyd gan QAA mewn trafodaethau gyda CCAUC cyn yr adolygiad na ddisgwylir i'r Ysgol gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg wrth weithredu eu rhaglenni. Nid oedd hyn yn un o ofynion y Brifysgol Agored fel partner dilysu'r Ysgol. Felly, nid oes unrhyw wybodaeth ar gael yn y Gymraeg ar wefan yr Ysgol.

41 Tynnodd yr Ysgol sylw at y ffaith na chafwyd unrhyw geisiadau gan ei myfyrwyr naill ai am gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu am gyflwyno eu gwaith yn y Gymraeg. Cadarnhaodd y myfyrwyr nad oeddent wedi gwneud unrhyw geisiadau naill ai am gyflwyno eu gwaith yn y Gymraeg neu am gael eu haddysgu gan rywun sy'n siarad Cymraeg.

42 Nid oes gan yr Ysgol unrhyw strategaeth bolisi ar gyfer y Gymraeg. Amlinellodd yr Ysgol ei bwriad i sefydlu Canolfan Daniel Rowland i wella'r rhyngweithio ag eglwysi lle maent yn siarad Cymraeg. Mae ystafell i ddarllen deunyddiau Cymraeg yn llyfrgell yr Ysgol. Mae'r Ysgol wrthi'n trafod penodi staff ategol sy'n siarad Cymraeg i gynnig mentora drwy gyfrwng y Gymraeg ar y rhaglen Diploma i Raddedigion mewn Diwinyddiaeth.

QAA2701 - R13246 - Awst 22

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk